


TRAMSHED
CLARE ROAD, CARDIFF, CF11 6QP

Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu i Datgloi'r Ochr Cynhyrchu yn Tramshed Caerdydd!

Ceisiwch gyrraedd mewn da bryd er mwyn i ni allu cofrestru pawb mor ddidrafferth â phosibl. Sylwch y bydd bagiau'n cael eu harchwilio fel mesur diogelwch wrth fynedfa'r digwyddiad.

Mae nodyn i'ch atgoffa o amserlen y diwrnod ar gael yma.

## Sut i gyrraedd Tramshed:

**Ar y Bws**
Mae safle bws ar Clare Road sydd 276 troedfedd i ffwrdd o'r lleoliad. Mae Tramshed Caerdydd hefyd 10 munud ar droed o Orsaf Caerdydd Canolog sydd ar lawer o lwybrau bysiau allweddol. I gael yr holl wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus ac i gynllunio eich taith, ewch i wefan Traveline Cymru.

**Ar y Trên**
Mae gorsaf drenau Caerdydd Canolog ryw 10 munud ar droed o Tramshed Caerdydd. I gael rhagor o wybodaeth am orsaf Caerdydd Canolog, ewch i'w tudalen we.

**Beicio a Cherdded**
Gallwch chi gynllunio eich llwybr beicio a cherdded gan ddefnyddio map beicio a cherdded Cyngor Caerdydd. Mae Tramshed Caerdydd ddeg munud i ffwrdd o Orsaf Caerdydd Canolog ar droed.

**Mewn Car**
Mae tri safle Parcio a Theithio yng Nghaerdydd. Mae'r manylion ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd. Yn anffodus, nid oes gan y lleoliad lefydd parcio ond mae mannau parcio ar y stryd wrth ymyl y lleoliad ac ar Pendyris Street. Mae'r llefydd parcio hyn yn cael eu gweithredu gan y cyngor ac mae'n rhaid talu ac arddangos. Y lle parcio aml-lawr agosaf yw'r NCP ar Stryd Wood, tua 10 munud ar droed o'r lleoliad.

Yn ôl gwefan Cyngor Dinas Caerdydd, gall y rhai sydd â bathodyn glas barcio ym mhob man parcio talu ac arddangos am ddim cyhyd ag y bo angen. Cliciwch yma i gael rhagor o fanylion.

**Bwyd a Diod**
Bydd dŵr ar gael i bob gwestai ar y diwrnod, ond cofiwch na fydd bwyd i'w brynu ar y safle. Mae digon o siopau lleol yn yr ardal gyfagos, gan gynnwys Pret a Manger, a bar a chegin Neighbourhood.

**Mynediad**
Os oes gennych chi unrhyw ofynion o ran mynediad, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib er mwyn i ni allu gwneud ein gorau i geisio eich helpu. E-bostiwch Production.Unlocked@bbc.co.uk i roi gwybod i ni ac i ddarparu rhif cyswllt rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth.

17 - 18 HYDREF 2023

TRAMSHED,
CLARE ROAD, CAERDYDD, CF11 6QP

PRODUCTION UNLOCKED

@BBCACADEMY